

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A483
(STRYD Y GWYNT, RHYDAMAN, SIR
GAERFYRDDIN) (GWAHARDD CERBYDAU
DROS DRO) 2023**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A483, neu gerllaw iddi, yn Rhydaman, Sir Gaerfyrddin.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A483 a elwir Stryd y Gwynt, Rhydaman sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r A474/Lôn Tir-y-Dail hyd at bwynt 2 fetr i'r de o'i chyffordd â'r Stryd Fawr.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de yw mynd ar yr A483 tua'r gogledd i Landeilo, yr A40 tua'r de-orllewin i Ben-sarn a'r A48 tua'r de-ddwyrain i Bont Abraham i ailymuno â'r A483 tua'r gogledd ac i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gogledd.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 21 Hydref 2023. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol o 08:00 o'r gloch ar 21 Hydref hyd 18:00 o'r gloch ar 22 Hydref 2023 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A483 TRUNK ROAD (WIND STREET,
AMMANFORD, CARMARTHENSHIRE)
(TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES)
ORDER 2023**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A483 trunk road at Ammanford, Carmarthenshire.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles from proceeding on the length of the A483 trunk road known as Wind Street, Ammanford that extends from its junction with the A474/Tir-y-Dail Lane to a point 2 metres south of its junction with High Street.

The alternative route for southbound vehicles is via the northbound A483 to Llandeilo, south-westbound A40 to Pensarn and south-eastbound A48 to Pont Abraham to rejoin the northbound A483: vice versa for northbound vehicles.

The Order comes into force on 21 October 2023. The temporary prohibition is expected to operate from 08:00 hours on 21 October until 18:00 hours on 22 October 2023 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work begins.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government